Amodau Cyffredinol CBAC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy

Medi 2026

Cynnwys

1. Ynglŷn â CBAC 3

2. Cwmpas 3

3. Darpar ganolfannau 3
   - 3.1 Cymeradwyo Canolfannau 4
   - 3.2 Cymeradwyo Cymwysterau 4

4. Mathau o Gymwysterau 4

5. Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC 5
   - 5.1 Trydydd Partïon 6
   - 5.2 Cyfraith Cydraddoldeb 7
   - 5.3 Systemau TG 7

6. Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer canolfannau CBAC – Grŵp 1: Cymwysterau Cyffredinol a CGaTh 7

7. Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer canolfannau CBAC – Grŵp 2: Cymwysterau Sgiliau a CGaTh 8
   - 7.1 Diwygiadau Cyffredinol 8

8. Statws y ganolfan a monitro 9

9. Sancsiynau a thynnu cymeradwyaeth yn ôl 9

10. Cyngor pellach 9

11. Rheoli fersiynau ac adolygu'r polisi 10

1. Ynglŷn â CBAC

Corff dyfarnu yw CBAC sy'n darparu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a galwedigaethol a gydnabyddir yn rhyngwladol i ysgolion a cholegau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau annibynnol. Gyda phrofiad o dros 75 mlynedd o ddarparu cymwysterau, CBAC yw'r prif ddarparwr yng Nghymru ac un o brif ddarparwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Sefydlwyd CBAC yn 1948 fel consortiwm o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru. Bellach rydym yn elusen annibynnol gofrestredig, dan reolaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Thîm Arwain Gweithredol.

Mae WJEC CBAC Ltd. yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac yn elusen gofrestredig (rhif 1073332). Mae is-gwmni, sef WJEC CBAC Services Limited, yn darparu gwasanaethau argraffu a chyhoeddi arbenigol. Mae Eduqas yn nod masnach cofrestredig i WJEC CBAC Ltd ac mae'n gwahaniaethu ein cymwysterau a reoleiddir gan Ofqual, sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer ysgolion uwchradd, academïau a cholegau yn Lloegr.

Mae CBAC yn aelod o'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), sefydliad aelodaeth sy'n cynnwys wyth darparwr cymwysterau yn y DU, gan gynnwys cymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol a thechnegol. Mae'r CGC yn darparu canllawiau clir, cyson a theg ynghylch gweinyddu cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol. Mae gofynion CBAC a'r CGC yn sicrhau bod CBAC yn cadw at reoliadau'r rheoleiddwyr cymwysterau: Ofqual yn Lloegr, Cymwysterau Cymru yng Nghymru a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon.

2. Cwmpas

Dogfen i ganolfannau yw hon, ac mae'n bwynt cyfeirio canolog i gefnogi eu dealltwriaeth o'r rheoliadau y mae'n rhaid i ganolfannau gadw atynt er mwyn cael eu cymeradwyo fel canolfan a pharhau i fod â statws fel canolfan gymeradwy CBAC. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gymwysterau CBAC, gan gynnwys y rhai dan frand Eduqas.

Fel aelod o'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), mae CBAC yn mabwysiadu gweithdrefnau'r CGC, sy'n cael eu dilyn gan holl Gyrff Dyfarnu'r CGC ac sy'n sicrhau bod gofynion yn cael eu cymhwyso'n gyson. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â chanllawiau perthnasol y CGC. Mae'n ofynnol i ganolfannau gadw at ddogfennaeth CBAC a'r CGC, fel y nodir yn adran 5.

Rhaid i benaethiaid canolfannau sicrhau bod uwch dimau arwain a phersonél y swyddfa arholiadau yn ymwybodol o gynnwys y ddogfen hon ac yn cadw at hynny.

3. Darpar ganolfannau

Er mwyn cynnig ein cymwysterau, mae'n rhaid i ganolfan gael ei chymeradwyo fel canolfan gan CBAC. Mae'r broses gymeradwyo yn cynnwys llenwi'r ffurflen gais berthnasol ac asesiad o allu'r ganolfan i fodloni gofynion CBAC ac unrhyw ofynion perthnasol gan y CGC.

Rhaid i ganolfannau gael eu cymeradwyo fel canolfan a, lle bo'n berthnasol, sicrhau bod cymwysterau wedi'u cymeradwyo **cyn** iddynt ddechrau cyflwyno cymwysterau CBAC/Eduqas.

3.1 Cymeradwyo canolfannau

Dylai darpar ganolfannau gyfeirio at y canllawiau ar wefan CBAC. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y broses o gymeradwyo canolfannau, gan gynnwys dogfennaeth berthnasol fel y rhestr wirio 'Ydych chi'n barod?', y gwiriadau diwydrwydd dyladwy y bydd CBAC yn eu cynnal a manylion cyswllt Tîm Cymeradwyo Canolfannau CBAC.

Rhaid i ganolfannau ymgysylltu'n llawn ac yn ddidwyll â phroses gymeradwyo canolfannau CBAC, gan gynnwys caniatáu mynediad rhwydd at wybodaeth neu ddogfennau a chyfleusterau'r ganolfan lle bo angen.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i wrthod cais am gymeradwyaeth canolfan heb roi rheswm. Nid oes proses apelio. Gall canolfannau ailgyflwyno cais am gymeradwyaeth ddim cynharach nag 1 flwyddyn ar ôl i gais gael ei wrthod.

3.2 Cymeradwyo cymwysterau

Mae angen cymeradwyaeth ar rai cymwysterau er mwyn i ganolfannau allu cyflwyno'r cymhwyster. Mae cymeradwyaeth cymwysterau penodol yn pennu gallu'r ganolfan i gyflwyno a sicrhau ansawdd y cymwysterau hyn, gan gynnwys sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau priodol.

Rhaid i ganolfannau ymgysylltu'n llawn ac yn ddidwyll â phroses gymeradwyo cymwysterau CBAC, gan gynnwys caniatáu mynediad rhwydd at wybodaeth neu ddogfennau, cofnodion y ganolfan a chyfleusterau'r ganolfan lle bo angen.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i wrthod cais am gymeradwyaeth cymhwyster heb roi rheswm. Nid oes proses apelio. Gall canolfannau ailgyflwyno cais am gymeradwyaeth cymhwyster ar unrhyw adeg ar ôl i gais gael ei wrthod.

4. Mathau o gymwysterau

Yn ôl gofynion CBAC mae angen i ganolfannau gadw at reoliadau CBAC a'r CGC a nodir yn adran 5. Fodd bynnag, nid yw rhai rheoliadau yn berthnasol i gymwysterau penodol oherwydd eu natur benodol. Mae CBAC wedi categoreiddio cymwysterau yn ddau grŵp gwahanol i helpu canolfannau i ddeall pa reoliadau sydd wedi'u diwygio a pha rai nad ydynt yn berthnasol.

Grŵp 1: Cymwysterau Cyffredinol a CGaTh

- Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
- Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen
- Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)
- Project Estynedig
- TAG
- TGAU
- Lefel 1 a Lefel 2 Cymwysterau Cyffredinol
- Lefel 1 a 2 Dyfarniadau Galwedigaethol
- Lefel 1 a 2 Dyfarniadau Technegol
- Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig Cymhwysol (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen)
- Cymwysterau Technegol Lefel T
- TAAU*
- Tystysgrifau Galwedigaethol*
- Lefelau V*
- Tystysgrifau Sylfaen*

Grŵp 2: Cymwysterau Sgiliau a CGaTh

- Sgiliau Hanfodol Cymru
- Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Llwybrau Mynediad
- Llwybrau Ieithoedd
- Llwybrau at Gyflogaeth
- Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol*
- Project Personol*
- Cyfres Sgiliau*
- Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith*
- Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio
- Cymraeg Gwaith
- Cymraeg i Oedolion
- Tystysgrif Iaith Gymraeg

**O 2027 ymlaen*

Ar gyfer canolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau grŵp 1 **yn unig**, neu gymwysterau grŵp 1 **a** grŵp 2, rhaid i ganolfannau gadw at Reoliadau Cyffredinol y CGC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy yn llawn. Ar gyfer canolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau grŵp 2 **yn unig**, rhaid i ganolfannau gadw at Reoliadau Cyffredinol y CGC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy, gan gynnwys y diwygiadau neu'r eithriadau penodol a nodir yn adran 7.

Yn ogystal â Rheoliadau Cyffredinol y CGC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy, mae adran 5 yn nodi rheoliadau eraill y CGC y mae'n rhaid i ganolfannau gadw atynt.

5. Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod uniondeb a diogelwch y system arholiadau/asesu yn cael eu cynnal bob amser ac nad yw'n cael enw drwg.

Rhaid i ganolfannau sydd wedi'u cymeradwyo i gynnig cymwysterau CBAC/Eduqas gadw at y gofynion a nodir yn y ddogfen hon. Yn ogystal, rhaid i ganolfannau gadw at y gofynion a nodir yn fersiwn diweddaraf dogfennaeth berthnasol CBAC a'r CGC, fel y nodir isod. Fel y nodir yn adran 4, ni fydd agweddau ar reoliadau'r CGC yn berthnasol i rai mathau o gymwysterau. Lle mae hyn yn wir, bydd hyn yn cael ei nodi'n glir ym mholisi perthnasol CBAC.

Adran o'r Rheoliadau	Dogfennau CBAC	Dogfennau'r CGC
Rheoliadau Cyffredinol	Y ddogfen hon	Rheoliadau cyffredinol ar gyfer canolfannau cymeradwy – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Ystyriaeth Arbennig	Polisi Ystyriaeth Arbennig CBAC	Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol	Polisi Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol CBAC	Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Apeliadau	Polisi Apeliadau CBAC	Apeliadau – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau	Polisi Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau (ICE) CBAC	Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau (ICE) – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Cyfarwyddiadau ar Gynnal Asesiadau Di-arholiad (manylebau TAG a TGAU)	CBAC Asesu Mewnol: Canllaw i Ganolfannau	Gwaith Cwrs / Asesiad Di-arholiad – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Cyfarwyddiadau ar Gynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol)	CBAC Asesu Mewnol: Canllaw i ganolfannau Cyfarwyddiadau CBAC ar gyfer cynnal Asesiadau dan Reolaeth	Gwaith Cwrs / Asesiad Di-arholiad – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs	CBAC Asesu Mewnol: Canllaw i Ganolfannau	Gwaith Cwrs / Asesiad Di-arholiad – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau	Polisi Camymddwyn CBAC	Camymddwyn – Y Cyd-gyngor Cymwysterau
Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau	Polisi Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau CBAC	Ar ôl y canlyniadau – Y Cyd-gyngor Cymwysterau

Yn ogystal â'r uchod, rhaid i ganolfannau fodloni unrhyw ofynion a nodir ym manylebau'r pynciau unigol, llawlyfrau'r cymwysterau, a'r dogfennau CBAC a restrir isod:

- *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau CBAC*
- *Dyddiadau Allweddol CBAC*
- *Seiberddiogelwch*
- *Telerau Busnes CBAC*

5.1 Trydydd partïon

Lle mae canolfan yn defnyddio trydydd parti i gyflwyno unrhyw ran o gymhwyster rhaid iddi sicrhau ei bod yn goruchwylio ac yn gyfrifol am ddarpariaeth y cymhwyster hwnnw'n unol â'r rheoliadau hyn a'n gofynion. Rhaid i ganolfannau gael cytundeb ysgrifenedig gyda'r trydydd parti a rhaid iddynt sicrhau bod copi o'r cytundeb ysgrifenedig ar gael i'w archwilio os bydd CBAC yn gofyn amdano.

5.2 Cyfraith Cydraddoldeb

Rhaid cyflwyno cymwysterau yn unol â Chyfraith Cydraddoldeb gan sicrhau cydymffurfiaeth â phob agwedd ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn enwedig Adran 20 (7). Lle mae gan y ganolfan ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol, **rhaid** i'r ganolfan **beidio â** chodi tâl ychwanegol ar ymgeisydd ag anabledd mewn perthynas â'r addasiad neu'r cymorth.

5.3 Systemau TG

Rhaid i ganolfannau gael mynediad i'r rhyngrwyd, a rhaid rhoi cyfeiriad e-bost y ganolfan sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd i CBAC.

Rhaid cadw manylion mewngofnodi ar gyfer systemau CBAC, yn cynnwys Porth CBAC, yn ddiogel.

Ni ddylid rhoi manylion mewngofnodi ar gyfer systemau CBAC, yn cynnwys Porth CBAC, i unrhyw unigolyn nad yw'n aelod o staff y ganolfan.

Y canolfannau sy'n gyfrifol am weithredu a gorfodi mesurau diogelwch cadarn, gan gynnwys:

- lle bo ar gael, awthentigeiddio aml-ffactor gorfodol ar gyfer pob cyfrif a system sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag arholiadau, gan gynnwys y rhai sy'n rhyngwynebu rhwng y corff dyfarnu a systemau'r ganolfan, i wella diogelwch a diogelu data sensitif. Lle nad yw awthentigeiddio aml-ffactor ar gael ar systemau'r ganolfan, rhaid i ddull diogelwch amlhaenog cyfatebol fod ar waith. Er enghraifft, rheolaethau cryf yn ymwneud â mewngofnodi, mynediad a monitro a dulliau storio diogel fel bod data sy'n gysylltiedig ag arholiadau yn cael eu diogelu yn unol ag arferion gorau seiberddiogelwch.
- adolygu a diweddaru gosodiadau diogelwch yn rheolaidd i alinio ag arferion gorau cyfredol

6. Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC – Grŵp 1: Cymwysterau Cyffredinol a CGaTh

Yn ôl gofynion CBAC mae angen i ganolfannau gadw at yr **holl** ofynion a nodir yn nogfen y CGC, Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy.

Atgoffir canolfannau, lle maent yn cynnig cymwysterau grŵp 1 **a** grŵp 2, rhaid iddynt gadw at yr **holl** ofynion a nodir yn nogfen y CGC, Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy.

7. Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC – Grŵp 2: Cymwysterau Sgiliau a CGaTh

Mae CBAC yn mabwysiadu'r rhan fwyaf o'r egwyddorion a nodir yn nogfen y CGC, Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy. Amlinellir y gofynion ar gyfer canolfannau sy'n cynnig cymwysterau grŵp 2 yn yr adran hon, ac maent yn berthnasol i ganolfannau sy'n cyflwyno'r mathau o gymwysterau a restrir dan grŵp 2 yn adran 4 y ddogfen hon **yn unig**.

Rhaid i ganolfannau gadw at y gofynion a nodir yn nogfen y CGC, Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy, gan gynnwys y diwygiadau isod yn adran 7.1.

7.1 Diwygiadau cyffredinol

i) Disodlir pob cyfeiriad at ddiweddariad blynyddol y Gofrestr Rhifau Canolfannau Cenedlaethol (NCNR) ac arolwg datganiad Pennaeth y Ganolfan gan arolwg CBAC.
(adrannau 1.9, 1.10, 3.18, 5.3 (p, t) yn nogfen y CGC)

ii) Mae pob cyfeiriad at ddarparu manylion cyswllt a gwybodaeth y gofynnir amdani ar gyfer y Gofrestr Rhifau Canolfannau Cenedlaethol yn parhau i fod yn berthnasol ond dylid cysylltu'n uniongyrchol â CBAC am hyn drwy anfon e-bost at canolfannau@cbac.co.uk. *(adran 5.3 (q-s, u) yn nogfen y CGC)*

iii) Disodlir pob cyfeiriad at Wasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC ac arolygiadau canolfannau gan Drefniadau Monitro CBAC.
(adrannau 1.10, 3.13, 3.18, 5.3 (r, v-w), 5.5, 5.9 (f) yn nogfen y CGC)

iv) Nid yw'r holl gyfeiriadau at storio asesiadau wedi'u hamserlennu yn ddiogel yn berthnasol, ac eithrio canolfannau sy'n cynnig Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori, Cymwysterau Cymraeg i Oedolion, Tystysgrif Iaith Gymraeg.
(adrannau 3.15 (d), 5.3 (r, w) yn nogfen y CGC)

v) Nid yw'r canlynol yn berthnasol; derbynfa lle mae staff priodol ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:30am a 3:30pm yn ystod y tymor.
(adran 3.15 (b) yn nogfen y CGC)

vi) Gall y cyfeiriad cofrestredig neu gyfeiriad amgen priodol dynodedig fod yn fan cynnal priodol.
(adran 3.15 (e) yn nogfen y CGC)

vii) Dylid disodli cyfeiriadau at Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCo) / Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo), lle nad yw hon yn rôl benodol yn y ganolfan ar hyn o bryd, gan 'unigolyn cyfatebol priodol sy'n gyfrifol am ystyried anghenion ymgeiswyr a sefydlu trefniadau mynediad'.
(adran 3.32, 5.3 (c), 5.4 (a, d, g-i) yn nogfen y CGC)

viii) O ran cymwysterau nad ydynt yn cael eu cymedroli, nid yw'r cyfeiriadau penodol at gymedroli ac adolygiadau o'r cymedroli yn yr adrannau hynny yn berthnasol.
(adrannau 3.25 (b), 4.2 (b), 5.7 (b, f), 5.13 (a, f, h, i) yn nogfen y CGC)

ix) Gall cyfeiriadau at athrawon gael eu disodli gan aseswyr, lle bo hynny'n briodol.

8. Statws y ganolfan a monitro

Rhaid i ganolfannau ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau monitro CBAC, gan gynnwys caniatáu mynediad rhwydd at wybodaeth neu ddogfennau, gwaith ymgeiswyr, cofnodion y ganolfan, arholiadau a chyfleusterau'r ganolfan. Gall hyn gynnwys ymweliadau heb eu cyhoeddi.

Rhaid i ganolfannau gynorthwyo CBAC wrth gynnal unrhyw weithgareddau monitro rhesymol, a rhaid cynorthwyo CBAC neu ei reoleiddwyr mewn unrhyw ymchwiliadau a wneir at ddibenion cyflawni eu swyddogaethau.

Rhaid i ganolfannau hysbysu CBAC ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau yn digwydd sy'n effeithio ar natur y ganolfan (e.e. newid perchnogaeth neu reolaeth) neu'n effeithio ar allu'r ganolfan i fodloni gofynion CBAC.

Rhaid i unrhyw ganolfan y mae ei chymeradwyaeth fel canolfan neu am gymwysterau wedi'i thynnu'n ôl neu sydd â sancsiynau wedi'u gosod gan gorff dyfarnu arall, roi gwybod i CBAC am hyn ar unwaith (gweler adran 9).

Os bydd canolfan yn tynnu'n ôl o'i rôl yn y broses o gyflwyno cymhwyster CBAC/Eduqas, bydd yn rhaid i'r ganolfan gymryd yr holl gamau rhesymol i warchod buddiannau'r dysgwyr. Yn ogystal, rhaid i'r ganolfan roi gwybod i CBAC am hyn ar unwaith (gweler adran 9) er mwyn i CBAC hefyd gymryd camau rhesymol i warchod buddiannau'r dysgwyr.

9. Sancsiynau a thynnu cymeradwyaeth yn ôl

Bydd canolfannau sy'n methu â chydymffurfio â gofynion CBAC yn destun sancsiynau. Mae CBAC yn cadw'r hawl i dynnu cymeradwyaeth cymhwyster neu ganolfan yn ôl o unrhyw ganolfan yn unol â pholisi CBAC, 'Tynnu cymeradwyaeth cymhwyster/canolfan yn ôl'.

Gall CBAC roi gwybod i Gyrff Dyfarnu eraill a phartïon eraill fel y bo angen o unrhyw achos o dynnu cymeradwyaeth yn ôl ac mae'n cadw'r hawl i wneud hynny.

Os bydd CBAC yn tynnu cymeradwyaeth canolfan yn ôl, rhaid i'r ganolfan gymryd yr holl gamau rhesymol i warchod buddiannau'r dysgwyr.

10. Cyngor pellach

Dylai canolfannau gyfeirio at y polisi hwn ac at ganllawiau'r CGC yn y lle cyntaf. Os oes angen cefnogaeth neu gyngor pellach, yna gall canolfannau gysylltu â Thîm Rheoli Canolfannau CBAC naill ai drwy anfon e-bost at canolfannau@cbac.co.uk, neu drwy ffonio 029 2026 5077.

11. Rheoli fersiynau a dyddiad adolygu'r polisi

Rheoli fersiynau	Dyddiad	Perchennog	Newidiadau	Adolygiad Nesaf
1.0	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Rheoleiddio	Creu dogfen Amodau Cyffredinol CBAC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy (tynnu'r ddogfen Amodau CBAC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy yn ôl)	Gorffennaf 2027